**Adran Gwaith Stryd**
**Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

**Street Works**
**Environment, Roads and Facilities**
Conwy County Borough Council
PO Box 1
Conwy
LL30 9GN

## Nodiadau canllaw ar y manylion sydd eu hangen yn Adran 5 Ffurflen Gais A184.

Gweler isod yr isafswm o ran manylion sy'n ofynnol ar gais A184 ar gyfer croesfan i gerbydau.  Gofynnir i chi gyflwyno'r holl wybodaeth gyda phob cais A184 er mwyn gallu ei brosesu'n gyflym.

- Mae **Eitem 1** yn drawstoriad nodweddiadol o groesfan i A184 gerbydau, dyma'r wybodaeth y mae Conwy ei hangen ar gyfer pob cais A184 unigol.  (Peidiwch â dychwelyd y darlun hwn yn unig), gan y bydd pob croesfan A184 yn wahanol.

- Mae **Eitem 2** yn dangos cynllun lleoliad nodweddiadol, gydag union leoliad y groesfan arfaethedig i gerbydau wedi'i nodi yn gywir ar y cynllun.

- Mae **Eitem 3** yn dangos y gofynion ar gyfer llain weledig sy'n hanfodol er mwyn i gais A184 fod yn llwyddiannus.

## Guidance notes on the specification required in Section 5 of the S184 application form.

Please see below the minimum specification required on a S184 application for a vehicular crossing. Please supply all this information with each S184 application so that it can be processed quickly.

- **Item 1** is a typical cross-section of a S184 vehicle crossing, this is the information Conwy require for each individual S184 application. (Please do not just return this drawing), as each S184 crossing will be different.

- **Item 2** shows a typical location plan, with the exact location of the proposed vehicle crossing marked exactly on the plan.

- **Item 3** shows the requirements for a visibility splay that is essential for the S184 application to be successful.

**Eitem 1. Dyluniad Nodweddiadol ar gyfer Croesfan i Gerbydau A184**

**Item 1. Typical Design for a S184 vehicle Crossing**

Dylai'r toriad i'r Ffordd Gerbydau fod yn isafswm o 250 mm ar gyfer cywasgiad.




NOT TO SCALE

**Eitem 2 yn dangos cynllun lleoliad nodweddiadol, gyda lleoliad y groesfan arfaethedig i gerbydau wedi'i nodi'n glir.**

**Item 2 shows a typical location plan with the location of the proposed vehicle crossover clearly marked**



## Safonau Darlunio - Llain Weledaedd

Mae'n ofynnol cyflwyno darluniau sy'n dangos y llain weledaedd arfaethedig gyda'r ceisiadau, sy'n cynnig mynediad newydd i gerbydau neu fynediad wedi'i addasu i briffordd bresennol.

Mae llain weledaedd yn gynllun darlun sy'n dangos yr ongl a'r pellter y gall gyrwyr sy'n ymuno o bwynt mynediad weld a chael eu gweld gan yrwyr sy'n teithio ar hyd y ffordd flaenoriaeth. Mae'n sicrhau fod gan unrhyw waith adeiladu ar gyfer mynedfeydd ac allanfeydd weledaedd da i atal unrhyw ddamweiniau ffordd.

**Mae lleiniau gweledaedd yn cael eu ffurfio fel a ganlyn:**

1. Mesur 2.4 metr o'r ffordd gerbydau yng nghanol y fynedfa neu'r dreif.
2. Tynnu llinellau i'r chwith a'r dde nes iddynt gyrraedd pen arall y ffordd gerbydau.
3. Bydd hyd y llinellau yn gymesur â'r terfyn cyflymder ar gyfer y parth - er enghraifft mewn parth 30mya, bydd angen i'r llinell fod oddeutu 43m - yn hirach ar gyfer terfynau cyflymder uwch.
4. Mae'n rhaid i unrhyw ofod sydd yn y ddau driongl fod heb unrhyw rwystr yn uwch na 1.005 metr yn eich cynlluniau.

Ar gyfer llinellau gweld ar gyfer mynedfeydd newydd, bydd y gweledaedd sy'n ofynnol yn llorweddol wrth adael y fynedfa yn amrywio yn dibynnu ar derfyn cyflymder y ffordd:

**Terfyn cyflymder 20mya - pellter o 25 metr**
**Terfyn cyflymder 30mya - pellter o 43 metr**
**Terfyn cyflymder 40mya - pellter o 65 metr**
**Terfyn cyflymder 50mya - pellter o 92 metr**
**Terfyn cyflymder 50mya - pellter o 124 metr**

## Drawing Standard – Visibility splay

Drawings that show the proposed visibility splay are required to be submitted with applications, which propose new or altered vehicular accesses onto an existing highway.

A visibility splay is a drawing plan that visualises the angle and distance from which drivers emerging from an access can see and be seen by drivers proceeding along the priority road. I t ensures that any buildings works for entrances and exits have good visibility to prevent motor accidents.

**Visibility splays are formed in the following way:**

1. Measure 2.4 meters from the carriageway in the centre of the entrance or driveway.
2. Draw lines to the left and right until they reach the opposite end of the carriageway.
3. Length of the lines will be proportionate to the speed limit for the zone – in a 30mph zone for example, the line will need to be around 43m – longer for higher speed limits.
4. Any space within the resulting two triangle areas must remain free of any obstruction above 1.005 meters in your plans.

For sight lines for new accesses, the clear vision required horizontally when exiting the access will vary depending on the speed limit of the road:

**20mph speed limit distance is 25 meters**
**30mph speed limit distance is 43 meters**
**40mph speed limit distance is 65 meters**
**50mph speed limit distance is 92 meters**
**50mph speed limit distance is 124 meters**

**Eitem 3. Gofynion darlunio ar gyfer llain weledadd**

**Item 3 drawing requirements for a visibility splay**




- Distance 'X' is 2.4 metres or 2.0 metres for single dwelling where 2.4 metres is unachievable
- Distance 'Y' is dependent upon the road speed limit as tabled